**CYNGOR TREF LLANGEFNI.**

**CYNLLUN HYFFORDDI BRAS**

**Rhagymadrodd**

Mae Cyngor Tref Llangefni wedi ymrwymo i ddarparu lefel o hyfforddiant i'w aelodau a'i staff i'w galluogi i gyflawni eu rolau priodol, nid yn unig er lles y Cyngor a'r Gymuned y mae'n ei gwasanaethu, ond hefyd datblygiad personol y cynghorwyr.

**Hyfforddiant**

Diffinnir hyfforddiant fel "proses wedi'i chynllunio i ddatblygu galluoedd yr unigolyn ac i fodloni anghenion presennol a dyfodol y Sefydliadau".

Gellir categoreiddio dysgu i'r canlynol:

- Sythweledol – dysgu sy'n digwydd ar hap ac efallai nad ydym yn ymwybodol ohono.
- Achlysurol – dysgu drwy fyfyrio ar ddigwyddiadau neu weithgareddau penodol.
- Ôl-weithredol – dull system o fyfyrio ar weithgareddau a nodi'r hyn a ddysgwyd ganddynt.
- Rhagweithiol – cynllunio i ddysgu o weithgaredd, myfyrio arno a chynllunio i ddefnyddio'r hyn a ddysgom.

Rhagwelir y bydd yr hyn a ddysgwyd gan yr aelodau a'r Clerc yn adlewyrchu llawer o'r uchod.

**Amcanion Hyfforddiant.**

Mae amcanion hyfforddi'r Cyngor fel a ganlyn:

1. Gwella dealltwriaeth ei aelodau, o'u rôl fel Cynghorydd lleol, y pwerau sydd ar gael i'r Cyngor a sut orau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor er lles y trigolion y mae'n eu gwasanaethu.
2. Darparu'r hyfforddiant angenrheidiol i'w Glerc i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei rôl.
3. Sicrhau lefel dderbyniol o gynllunio olyniaeth er mwyn:
   a. Sicrhau y gall y Cyngor weithredu'n effeithiol yn dilyn etholiadau lleol a newidiadau posibl i aelodaeth y Cyngor.
   b. Sicrhau y gall y Cyngor barhau i weithredu ar adegau pan na fydd y Clerc ar gael (e.e. gwyliau, salwch, trosiant staff ac ati).

**Hyfforddiant Staff**

| | |
|---|---|
| Pob aelod newydd o staff i ddilyn hyfforddiant dechreuol | Yn ôl yr angen |
| Pob aelod o staff i gynnal gwerthusiad swydd pob blynedd i ganfod anghenion hyfforddi | Yn flynyddol |
| Anogir yr holl staff swyddfa i wneud y canlynol, a bydd y Cyngor yn darparu cymorth ariannol ar eu cyfer:<br>1. ILCA - Cyflwyniad i Weinyddu Cynghorau Lleol<br>2. FILCA - Cyflwyniad Ariannol i Weinyddu Cynghorau Lleol<br>3. CILCA - Tystysgrif Gweinyddu Cynghorau Lleol | Trwy gydol ei gyflogaeth |
| Anogir yr holl staff i ddarllen cyhoeddiadau rheolaidd a diweddariadau o'r gwefannau isod:<br>• SLCC<br>• Y Clerc<br>• ULlC | Yn fisol |

**Hyfforddiant Cynghorwyr**

| |
|---|
| Bydd pob Cynghorydd yn dilyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn 6 mis o'i ethol. |
| Anogir pob Cynghorydd i fynychu cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi fel sy'n briodol i anghenion a chyfrifoldebau aelodau a Chynghorau. |
| Anogir pob Cynghorydd i ddarllen y cyhoeddiadau canlynol ar etholiad i swydd:<br>• Canllaw y Cynghorwydd Da<br>http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/canllaw%E2%80%99r_cynghorydd_da_-16738.aspx<br>• Governance and Accountability for local Councils – A Practitioners Guide<br>http://www.onevoicewales.org.uk/OVWWeb/UserFiles/Files/Front%20Page/Governance%20and%20Accountability%20A%20Practitioners%20Guide%20Wales%202019.pdf |